



Rôl y celfyddydau, diwylliant a'r Gymraeg wrth ddatblygu proffil rhyngwladol Cymru

Mae diwylliant yn gyffredin, ym mhob cymdeithas ac ym mhob meddwl – Raymond Williams

Mae gan bawb yr hawl i gyfranogi'n rhydd ym mywyd diwylliannol y gymuned, mwynhau'r celfyddydau a rhannu mewn datblygiadau gwyddonol a'u buddion – Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol

Ar 10 Rhagfyr 2019, cynhaliodd Cymdeithas Ddysgedig Cymru'r ail ddigwyddiad yn ei chyfres Cymru a'r Byd yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru Caerdydd.

Gan gyd-fynd â datblygu Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru, nod y gyfres hon o ddigwyddiadau yw ehangu'r drafodaeth a dwysau ein dealltwriaeth o asedau "pŵer meddal" Cymru.

Roedd y drafodaeth yn ymdrin â sut y gall Cymru wneud gwell defnydd o'i hasedau artistig a diwylliannol i gynyddu ei phroffil rhyngwladol.

Yn ei ddarlith agoriadol, amlygodd **David Anderson** (Cyfarwyddwr Cyffredinol, Amgueddfa Genedlaethol Cymru) mai ei phobl sy'n creu ac yn rhannu diwylliant, nid sefydliadau cenedlaethol. Gan dynnu ar waith Raymond Williams, eglurodd fod diwylliant yn rhywbeth sy'n perthyn i ni i gyd, bod gan Gymru ymagwedd sy'n sylfaenol ddemocrataidd at ei diwylliant; a bod hyn yn elfen o broffil rhyngwladol Cymru nad yw'n cael ei hyrwyddo'n ddigonol.

Dadleuodd Anderson hefyd fod dulliau diwylliannol nodedig Cymru - cyd-gynhyrchu a chydweithio yn benodol - yn ased sydd o ddiddordeb i gynulleidfa fyd-eang fawr, ac y dylid dal y creadigrwydd hwn o ran ymagwedd yn yr ymdrechion i lunio proffil rhyngwladol Cymru. Mae'r diddordeb rhyngwladol yn ailddatblygu Sain Ffagan yn [Amgueddfa Hanes Genedlaethol yn dystiolaeth o hyn](#).

Fodd bynnag, nid yw'r ymagwedd hon at ddiwylliant yn cael ei hadlewyrchu yn naratifau'r DU am ddiwylliant, sydd â phwyslais mwy Seisnig. Er enghraifft dyw'r ymgyrch 'GREAT Britain' ddim yn cynnwys cyfeiriadau at ddiwylliant Cymru, fel yr Eisteddfod. Ymhellach, ni chafwyd unrhyw ymgynghori gyda'r llywodraeth ddatganoledig na sefydliadau yng Nghymru. Mae sefydliadau diwylliannol yng Nghymru mewn sefyllfa lle mae'n rhaid iddynt ymdrin â blaenoriaethau dwy lywodraeth, a cheir anghydraddoldeb o ran pŵer.

Trafododd Anderson bartneriaethau rhyngwladol hefyd, ac yn benodol ddatblygiad arddangosfa Kizuna yr Amgueddfa Genedlaethol yn 2018, oedd yn benllanw saith mlynedd o waith gydag Amgueddfa Celf Fodern Japan. O'r dechrau, y bwriad oedd adeiladu perthynas hirhoedlog, sydd wedi parhau ar ôl i'r arddangosfa ddod i ben. Roedd Cromen Cymru yn Tokyo'n arddangos y berthynas barhaus rhwng y ddwy amgueddfa, yn ogystal â phartneriaeth National Theatre Wales gyda Theatr Genedlaethol Newydd Tokyo, a phartneriaethau diwylliannol a chreadigol eraill.

Mewn trafodaeth banel ddilynol, pwysleisiodd y siaradwyr fod Cymru wedi bod yn rhyngwladol erioed.

Dadleuodd **Rebecca Gould**, o Gyngor Prydeinig Cymru, ei bod yn hanfodol fod sefydliadau yng Nghymru'n gweithio i gydlynu eu hymgyrchoedd rhyngwladol yn well.

Atgoffodd y bardd a'r academydd **Mererid Hopwood** ni bod y gramadeg Cymraeg cyntaf i gael ei argraffu wedi'i ysgrifennu gan Dr Gruffydd Robert a'i gyhoeddi ym Milan ar ddydd Gŵyl Dewi 1567. Mae'r Gymraeg yn unigryw i Gymru a hi yw ein llais unigryw yn y byd. Ond er mwyn cryfhau ei phroffil rhyngwladol, rhaid iddi gael ei thrin yn fwy difrifol gartref. Er mwyn gallu cyflwyno delwedd ddilys a hyderus o Gymru, yn gyntaf rhaid meithrin a datblygu'r cysyniad o'r genedl yng Nghymru ei hun. Mae rôl gan sefydliadau cenedlaethol i hyrwyddo hyn.

Cytunodd **Helgard Krause** o Gyngor Llyfrau Cymru fod yr iaith yn ased rhyngwladol gwych a bod modd i ni ddysgu o'r ffordd y mae gwledydd eraill yn arddangos eu hieithoedd - ond mae angen gwell adnoddau. Cynghorodd hefyd fod angen i ymgyrchoedd diwylliannol Cymru fod o'r ansawdd uchaf i dynnu sylw mewn cyd-destun rhyngwladol gorlawn, ond pwysleisiodd fod gan Gymru ddigon i'w gynnig yn hyn o beth.

Ychwanegodd **Llinos Griffin Williams** o Wildflame Media fod gan Gymru bellach lawer o dalent cynhyrchu teledu, sy'n gosod y genedl ar lwyfannau rhyngwladol. Ond unwaith eto mae angen mwy o fuddsoddiad – mewn talent ac arddangos lleisiau mwy amrywiol.

Mae'r ymagwedd nodedig Gymreig at ddiwylliant a'n hiaith unigryw yn cynnig cyfleoedd i Gymru ryngweithio'n uniongyrchol gyda chynulleidfa ryngwladol, yn hytrach na gorfod ymdopi â chyfyngiadau paramedrau ymgyrchoedd a blaenoriaethau'r DU. Bydd gwell cydweithio rhwng sefydliadau yng Nghymru'n hwyluso presenoldeb cryfach yn rhyngwladol. Fodd bynnag mae angen i'n hymgyrchoedd a'n gweithgareddau fod yn fwy beiddgar, a rhaid i'r arlwy fod o'r safon uchaf er mwyn rhagori mewn oes o ormodedd o ran cynnwys.